SWYDDOGOL

Heddlu Police
DYFED-POWYS

Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth: 793/20

Cais:

A fedrith Tîm Rhyddid Gwybodaeth yr Heddlu roi data o ran y cwestiynau canlynol ar gyfer 2019-2020?

(1) O 1 Ionawr 2019-2020 hyd heddiw, faint o bobl sydd wedi eistedd fel aelodau ar grwpiau Ymgynghorol Annibynnol?

(2) O 1 Ionawr 2019-2020 hyd heddiw, faint o bobl o ethnigrwydd De Asiaidd sydd wedi eistedd fel aelodau ar Grwpiau Ymgynghorol Annibynnol?

(3) A fedrwch chi roi crynodeb o'r rhai a nodwyd yn yr ateb i'r ail gwestiwn yn ôl nifer yr aelodau De Asiaidd benywaidd a gwrywaidd o Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ers 1 Ionawr 2019-2020?

(4) Sawl Grŵp Ymgynghorol Annibynnol sydd gan eich heddlu ar hyn o bryd, ac a fedrwch chi roi manylion imi am eu diben?

(5) A oes gennych unrhyw Grwpiau Ymgynghorol Annibynnol penodol sy'n ymdrin â materion De Asiaidd? Megis Grwpiau Ymgynghorol Annibynnol sydd wedi'u sefydlu mewn mosgiau a themlau.

(6) A yw pob aelod o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn derbyn gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan eich heddlu?

(7) Beth yw'r broses fetio?

Adran 2: Cwestiynau pellach

A fedrith y Tîm Rhyddid Gwybodaeth ddarparu'r wybodaeth ganlynol mewn ymateb i'r cwestiynau isod?

1: A yw'r heddlu'n dilyn unrhyw ganllawiau neu weithdrefnau wrth geisio arweiniad gan Grwpiau Ymgynghorol Annibynnol neu aelodau o gwmpas materion sy'n benodol ar gyfer cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig? Er enghraifft, cydlyniad cymunedol, trais ar sail anrhydedd, priodasau dan orfod ac ati. Os felly, datgelwch gopi o bob dogfen berthnasol ar gyfer y canllawiau a'r gweithdrefnau hyn os gwelwch chi'n dda.

2: A oes angen i aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol lofnodi cytundebau cyfrinachedd neu ddiffyg datguddio? Os felly, a yw hyn yn wirfoddol neu'n orfodol?

3: A oes angen i aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau ar faterion yr ymgynghorir â nhw amdanynt?

Ymateb 1:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Ar gyfer y cyfnod sy'n cwmpasu Ionawr 2019 – 2020, mae 7 unigolyn wedi eistedd fel aelodau ar Grwpiau Ymgynghorol Annibynnol.

Ymateb 2 a 3:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Ar gyfer y cyfnod sy'n cwmpasu 2019 - 2020 does dim (0) pobl o ethnigrwydd De Asiaidd wedi eistedd fel aelodau ar Grwpiau Ymgynghorol Annibynnol.

Ymateb 4:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Mae gan Heddlu Dyfed-Powys 1 Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Am fanylion ynghylch diben y grŵp, gweler yr ateb i gwestiwn 1 o fewn adran 2 – cwestiynau pellach.

Ymateb 5:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Na. Fodd bynnag, mae gan Swyddogion Cyswllt Cymunedol yr Heddlu gysylltiadau â mosgiau a themlau ac maen nhw'n medru cyflwyno unrhyw faterion/ymholiadau i sylw'r Adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a fydd yn ymgynghori â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol os oes angen. Mae'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn cwrdd bob chwarter, a chyn cyfarfod o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, mae'r grŵp yn anfon dyddiad y cyfarfod at yr heddlu cyfan, a gall unrhyw un gyflwyno eitemau er sylw'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar gyfer trafodaeth/cyngor/adborth. Gall hyn fod yn unrhyw beth i wneud â gweithdrefn, arferion, digwyddiadau argyfyngus, cyngor/adborth, materion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ati.

Ymateb 6:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Dydyn nhw ddim yn derbyn gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dim ond gwiriad fetio ar gyfer y rhai nad ydynt yn bersonél heddlu (NPPV).

Ymateb 7:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cwblhau'r ffurflen fetio NPPV, sy'n cael ei phrosesu gan yr adran Safonau Proffesiynol. Mae fetio'n cael ei ddal am 3 blynedd, ac mae'n rhaid i'r unigolyn roi gwybod i'r Adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth os yw ei amgylchiadau'n newid o fewn y cyfnod hwn.

Adran 2: Cwestiynau pellach

Ymateb 1:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Mae Grŵp Ymgynghorol Annibynnol (GYA) Heddlu Dyfed-Powys yn cyflawni rôl bwysig cyfaill beirniadol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh). Fforwm ydyw lle mae aelodau o'r cyhoedd yn medru rhoi cyngor annibynnol inni ynghylch materion penodol a nodir gan yr Heddlu a SCHTh. Gall y materion hyn gynnwys polisïau, gweithdrefnau, arferion, digwyddiadau argyfyngus, neu faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth – yn syml, unrhyw beth sydd ag effaith, neu effaith bosibl, ar gymunedau'r ardal blismona. Mae'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol hefyd yn dwyn materion i sylw'r heddlu a SCHTh.

Ymateb 2:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Mae aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn llofnodi dogfen diogelu data sy'n cynnwys cyfrinachedd. Ydy, mae hyn yn orfodol.

Ymateb 3:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Oes, mae angen i aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau ar faterion yr ymgynghorir â nhw amdanynt.

O ganlyniad i'r systemau a fabwysiadwyd gan Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth o'r fath, mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth a ryddhawyd yn gywir.

(Dyma ymateb o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a ddatgelwyd ar 12/01/21)